

Iechyd

Darllen: Mathew 9:12

Mae'n ddiddorol sylwi fod llawer o weithredoedd iachau Iesu wedi eu gwneud yn y synagogau. Dywedir yn Mathew 4:23, 'Yr oedd yn mynd o amgylch Galilea gyfan, dan ddysgu yn eu synagogau hwy a phregethu efengyl y deyrnas, ac iacháu pob afiechyd a phob llesgedd ymhlith y bobl'. Mae'n bur debyg fod Iesu'n disgwyl darganfod ffydd yn y llefydd hyn. O ddarllen yr adran hon, mae'n amlwg bod y sôn amdano wedi mynd trwy Syria, Galilea a'r Decapolis a hyd yn oed i'r de, i Jerwsalem a Jwdea a thu hwnt i'r Iorddonen. Yr hyn sy'n arwyddocaol am y llefydd hyn yw bod ynddynt Genedl-ddynion yn ogystal ag Iddewon. Eisoës, ar ddechrau ei weinidogaeth roedd cenhedloedd eraill yn ei chwennych ac yn awyddus i'w gydnabod yn Arglwydd.

Mae'n werth manylu ar weithgaredd Iesu yn y synagog gan fod tair elfen yn mynd law yn llaw ac yn rhan allweddol o'r bywyd Cristnogol. Roedd y synagog yn ganolfan bwysig ym mywyd yr Iddew. Dim ond un deml oedd yn bodoli, sef y Deml yn Jerwsalem, a phwrpas y Deml oedd offrymu ebyrth i Dduw. Ond roedd pwrpas y synagog yn wahanol. Canolfannau i bregethu ac i addysgu'r bobl oeddent. Gellir olrhain tair elfen bwysig yng ngwasanaethau'r synagog. Yn rhan gyntaf y gwasanaeth offrymwyd gweddïau. Yn yr ail ran darllenwyd rhannau o'r Gyfraith a llyfrau proffwydi. Ac yn y drydedd ran fe gaed y bregeth. Gellid gofyn i unrhyw un draddodi'r bregeth neu'r anerchiad, ac yna rhoddid cyfle i drin a thrafod a chwestiynu'r cynnwys. Roedd y synagog yn lle delfrydol i rannu syniadau newydd â'r gwrandawyr. Ac yma y cafodd Iesu ei gyfle ar ddechrau ei weinidogaeth.

Manylwn ar weithgareddau Iesu yn ystod ei fywyd. Yn gyntaf, mae'n 'pregethu efengyl y deyrnas'. Dyma'i genadwri fawr gydol ei weinidogaeth, fel y mae Efengyl Marc yn datgan, 'Y mae'r amser wedi ei gyflawni ac y mae teyrnas Dduw wedi dod yn agos. Edifarhewch a

chredwch yr Efengyl' (Marc 1:15). Drwy ei bregethu, mae Iesu'n cyhoeddi'r gwirionedd am Dduw. Bellach, nid oes raid i bobl ymbalfalu yn y tywyllwch; mae'r goleuni wedi dod. Fe ddaw Iesu i gyhoeddi gwirioneddau na fyddai'r bobl eu hunain byth wedi eu hamgyffred. Nid oes angen dyfalu nac ymbalfalu, gan fod Iesu trwy ei fywyd ei hun a'i ddysgeidiaeth wedi dangos sut un yw Duw.

Fe ddaeth Iesu hefyd i ddysgu'r bobl, sef i ddangos ystyr ac arwyddocâd ei bregeth. Mor hawdd yw camddehongli'r hyn a glywn, ond mae'n gyfle i ddadansoddi a dehongli ei neges. Ac ynghlwm wrth hyn, mae Iesu'n iachau 'yr holl gleifion'. Nid digon yw cyhoeddi, pregethu a dysgu; mae'n rhaid hefyd roi'r geiriau hyn ar waith. Mae'n rhaid gweithredu. Mae'n troi ei ddysgeidiaeth yn weithredoedd, yn ddigwyddiadau ymarferol. Yng ngweinidogaeth Iesu, ni ellir gwahanu'r elfennau hyn – nid pethau ar wahân ydynt. Mae'r tair elfen yn allweddol. Tybed ydyn ni heddiw'n anwybyddu'r elfen weithredol, sef 'iachau'r cleifion'? Nod Iesu oedd gwella'r unigolyn cyfan, yn gorfforol, yn feddyliol ac yn ysbrydol. Ystyriwn hynny.

Myfyrdod pellach:

Oes yna le yn eich eglwys chwi i'r weinidogaeth iachau?

Beth fedrwn ni ei wneud i helpu'r cleifion?